Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Busnes

Mawrth 2020

# Diwygio Rheolau Sefydlog: Busnes y Cynulliad a Gweithdrefnau Brys

## Diben

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

2. Mae'r adroddiad yn argymell newidiadau i Reolau Sefydlog 6 ac 12. Mae'r cynigion ar gyfer Rheolau Sefydlog newydd i'w gweld yn Atodiad A.

## Cefndir

3. Ar ôl ystyried effaith bosibl yr achosion o feirws Covid-19 ar fusnes y Cynulliad, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno ar y diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad A, a hynny ar ffurf Rheol Sefydlog 34 newydd.

4. Cynigir bod Rheol Sefydlog 34 yn ymgorffori'r Rheolau Sefydlog 6.24A-H a 12.1A-C newydd a dderbyniwyd yr wythnos diwethaf, ac felly mae'r Rheolau Sefydlog hynny'n cael eu dirymu.

## Cam i’w gymryd

5. Derbyniodd y Pwyllgor Busnes y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog yn ffurfiol ar 23 Mawrth 2020 a gwahoddir y Cynulliad i gymeradwyo'r cynigion a nodir yn Atodiad A ac i ddirymu’r newidiadau a wnaed ddydd Mercher 18 Mawrth 2020.

## 34. RHEOL SEFYDLOG 34 - Gweithdrefnau Brys

<u>34.1 Mae Rheol Sefydlog 34 yn gwneud darpariaethau dros dro i hwyluso parhad busnes y Cynulliad yn ystod yr achosion o COVID-19. Bydd Rheol Sefydlog 34 yn peidio â chael effaith pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu, neu pan fydd y Cynulliad yn penderfynu felly, pa un bynnag sydd gyntaf. Pan fo darpariaethau a gynhwysir yn Rheol Sefydlog 34 yn gwrthdaro â darpariaethau eraill y Rheolau Sefydlog, rhaid rhoi blaenoriaeth i'r rhai yn Rheol Sefydlog 34.</u>

### Llywydd Dros Dro Dynodedig

34.2 Os bydd y Cynulliad o'r farn bod hynny'n briodol, caiff ethol Aelod yn Llywydd Dros Dro dynodedig i arfer swyddogaethau'r Llywydd.

34.3 Rhaid i'r Llywydd Dros Dro dynodedig ymgymryd â swyddogaethau'r Llywydd, ond dim ond ar ôl i'r Clerc hysbysu'r Cynulliad bod y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn methu â gweithredu.

34.4 Bydd y Llywydd Dros Dro dynodedig yn peidio ag arfer y swyddogaethau hyn pan fydd y Clerc yn hysbysu'r Cynulliad bod naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn gallu gweithredu.

### Cadeirydd Dros Dro yn y Cyfarfodydd Llawn

34.5 Caiff y Cynulliad ethol Cadeirydd Dros Dro at ddibenion cadeirio cyfarfodydd llawn.

34.6 O ran swyddogaethau'r Llywydd, dim ond y swyddogaethau a ganlyn y caiff Cadeirydd Dros Dro a etholir o dan Reol Sefydlog 34.5 ymgymryd â hwy:

(i) swyddogaethau mewn perthynas â busnes yn y cyfarfodydd llawn o dan Reol Sefydlog 12;

(i) swyddogaethau mewn perthynas â threfn yn y cyfarfodydd llawn o dan Reol Sefydlog 13;

(ii) unrhyw swyddogaethau eraill mewn perthynas â busnes yn y cyfarfodydd llawn.

34.7 Dim ond ar ôl i'r Clerc hysbysu'r Cynulliad fod y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd yn methu â chadeirio cyfarfodydd llawn y caiff Cadeirydd Dros Dro ymgymryd â’r swyddogaethau a bennir o dan Reol Sefydlog 34.6.

34.8 Bydd Cadeirydd Dros Dro yn peidio ag arfer y swyddogaethau hyn pan fydd y Clerc yn hysbysu'r Cynulliad fod naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd yn gallu cadeirio cyfarfodydd llawn.

**Y Llywydd yn adalw’r Cynulliad**

<u>34.9 Caiff y Llywydd, gyda chytundeb y Pwyllgor Busnes, gynnull y Cynulliad i ystyried mater sydd o bwys cyhoeddus brys sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd.</u>

**Cworwm yn y Cyfarfod Llawn**

<u>34.10 Pan fo'r Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, yn penderfynu ei fod yn ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, nid yw pleidlais yn ddilys oni bai bod o leiaf 4 Aelod yn cymryd rhan, a bod yr Aelodau hynny'n cynrychioli mwy nag un grŵp gwleidyddol.</u>

**Pleidleisio yn y Cyfarfod Llawn**

<u>34.11 Pan fo'r Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, yn penderfynu ei fod yn ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, caiff pob grŵp gwleidyddol (neu grwpiad a ffurfir at ddibenion Rheol Sefydlog 11) enwebu un Aelod o'r grŵp neu'r grwpiad i gael yr un nifer o bleidleisiau ag sydd o aelodau'r grŵp neu grwpiad, neu yn achos grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol,</u>

aelodau’r grŵp hwnnw yn ogystal ag unrhyw aelodau eraill o’r llywodraeth.

34.12 Yn ddarostyngedig i Reol Sefydlog 34.13, mae Rheol Sefydlog 34.11 yn gymwys i holl fusnes y Cyfarfod Llawn.

34.13 Nid yw Rheol Sefydlog 34.11 yn gymwys pan fo deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i basio penderfyniad neu gynnig drwy bleidlais lle bydd nifer yr Aelodau sy'n pleidleisio o blaid y penderfyniad neu'r cynnig ddim llai na dwy ran o dair o gyfanswm seddau'r Cynulliad.

34.14 Rhaid dangos pleidlais a gafodd ei bwrw o dan delerau Rheol Sefydlog 34.11 yn glir yn y cofnod o drafodion y Cyfarfod Llawn.

**Hygyrchedd Cyfarfodydd Llawn**

34.15 Caiff y Llywydd wahardd y cyhoedd rhag bod yn bresennol mewn cyfarfodydd llawn pan fydd angen gwneud hynny er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Os digwydd hynny, rhaid parhau i ganiatáu mynediad ar gyfer darlledu.

34.16 Ni fydd y gofyniad yn Rheol Sefydlog 34.15 i barhau i ganiatáu mynediad ar gyfer darlledu yn gymwys pan fydd y Comisiwn yn penderfynu ei bod yn anymarferol darlledu'r trafodion.

34.17 Os yw Rheol Sefydlog 34.10, 34.15 neu 34.16 i gael ei chymhwyso, rhaid i'r Llywydd neu'r clerc:

(i) hysbysu'r Cynulliad; a

(ii) cyhoeddi'r penderfyniad, lle bo hynny'n ymarferol bosibl, cyn y cyfarfod.

**Cwestiynau llafar**

34.18 Os bydd y Llywydd, ar ôl ymgynghori â’r Pwyllgor Busnes, o’r farn ei bod yn angenrheidiol am resymau iechyd y cyhoedd, caiff y Llywydd ddatgymhwyso gofynion Rheol Sefydlog 12.56 ar gyfer unrhyw wythnos neu wythnosau y mae’r Cynulliad yn eistedd mewn Cyfarfod Llawn.

**Hygyrchedd Cyfarfodydd Pwyllgor**

34.19 Caiff y cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod pwyllgor pan fydd angen gwneud hynny er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Os digwydd hynny, rhaid parhau i ganiatáu mynediad ar gyfer darlledu.

34.20 Ni fydd y gofyniad yn Rheol Sefydlog 34.19 i barhau i ganiatáu mynediad ar gyfer darlledu yn gymwys pan fydd y Comisiwn yn penderfynu ei bod yn anymarferol darlledu'r trafodion.

34.21 Os yw Rheol Sefydlog 34.19 neu 34.20 i gael ei chymhwyso, rhaid i'r cadeirydd neu'r clerc:

(i) hysbysu'r pwyllgor; a

(ii) cyhoeddi'r penderfyniad, lle bo hynny'n ymarferol bosibl, cyn y cyfarfod.

**Pwyllgor Cyfrifol o dan Reol Sefydlog 21**

34.22 Os bydd y Pwyllgor Busnes o’r farn ei bod yn angenrheidiol, caiff

(i) datgymhwyso Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3 yn gyfan gwbl neu’n rhannol;

(ii) cytuno bod y Cynulliad cyfan yn ymgymryd â’r swyddogaethau o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3 yn gyfan gwbl neu’n rhannol.

34.23 Caiff y pwyllgor cyfrifol o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3, pan fydd yn barnu bod hynny’n angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, gyflwyno adroddiad yn hwyrach na'r rheol 20 diwrnod a nodir yn Rheol Sefydlog 21.4.